Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Codi pryder am eich gofal mamolaeth

# Ni yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)

**Rydym yma i helpu os aeth rhywbeth o'i le yn y gofal a ddarparwyd i chi neu'ch babi gan fydwraig, nyrs neu gymrawd nyrsio yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth neu ar ôl genedigaeth.**

Gall y daflen hon eich helpu i benderfynu beth allech chi ei wneud os ydych chi'n credu bod bydwraig, nyrs neu gymrawd nyrsio wedi gwneud rhywbeth o'i le.

Os oes gennych bryder am feddyg, gallwch gysylltu â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC).

Os ydych chi a'ch teulu wedi cael profiad gofidus, mae yna sefydliadau hefyd a all eich helpu gyda'ch llesiant:

- **Cymdeithas Trawma Geni**
- **Make Birth Better**
- **Sands**
- **Tommy's**

# Beth rydym yn ei wneud

## Gallwn ni ymchwilio i bryderon ynghylch bydwraig, nyrs neu gydymaith nyrsio, os ydym yn credu y gallent fod yn risg i ddiogelwch pobl.

Rydym yn annibynnol ar ysbytai ac ar fydwragedd, nyrsys a chymddeithion nyrsio.

Efallai fod llawer o bobl wedi bod yn gysylltiedig â gofalu amdanoch chi neu'ch babi cyn, yn ystod ac ar ôl genedigaeth.

Dim ond pryderon am fydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio y gallwn ni eu hystyried.

Gall sefydliadau eraill edrych ar bryderon am feddygon a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae eu manylion ar ddiwedd y daflen hon.

# Os oes gennych bryder

Mae pwy rydych chi'n codi eich pryder ag ef yn dibynnu ar yr hyn a ddigwyddodd.

Mewn rhai achosion, yr ateb gorau yw trafod yr hyn a ddigwyddodd fel bod y staff dan sylw yn dysgu ohono. Dylai hyn gael ei wneud gan gyflogwr y nyrs, y fydwraig neu'r cymdeithion nyrsio gan eu bod nhw'n agosach at y sefyllfa.

Mae'n debygol mai'r ysbyty lle'r oedden nhw'n gweithio fydd hwn.

Mewn rhai achosion, mae'r hyn a ddigwyddodd mor ddifrifol fel y dylem ystyried a yw'r fydwraig, y nyrs neu'r cydymaith nyrsio yn risg i'r cyhoedd. Dyma pryd y dylech godi eich pryder gyda ni.

Gallwch hefyd ddod yn syth atom ni os ydynt yn gweithio'n annibynnol.

Os ydych chi eisiau cymorth i godi eich pryder gyda'r ysbyty, cysylltwch â:

- **Eich Gwasanaeth Cyngor a Chydgysylltu** lleol **i Gleifion (PALS)** (yng Nghymru a Lloegr)
- **Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Cleifion yr Alban (PASS)**
- **Cyngor Cleientiaid Cleifion (PCC)** (yng Ngogledd Iwerddon).

# Beth fydd yn digwydd os byddwch chi'n cysylltu â ni

Byddwn ni'n edrych ar yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym i weld a ddylem ymchwilio.

Gallwn ni ymchwilio os ydym yn credu bod unigolyn yn risg barhaus i'r cyhoedd.

Ni allwn ymchwilio ym mhob achos. Er enghraifft, os nad yw rhywun ar Gofrestr yr NMC.

Os penderfynwn beidio ag ymchwilio, byddwn yn egluro'r rhesymau pam.

Os penderfynwn ymchwilio, byddwn yn egluro beth fydd hyn yn ei olygu i chi a sut y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill ac yn rhannu gwybodaeth lle bo'n briodol gwneud hynny.

Rydym yn sylweddoli y gallai fod angen amser arnoch chi'ch hun a'ch teulu ac nad yw bob amser yn bosibl codi pryderon ar unwaith. Nid oes terfyn amser ar gyfer codi pryder.

Nid oes rhaid i chi ein talu ni ar unrhyw adeg yn ystod y broses.

# Sut i godi pryder

Os nad ydych chi'n siŵr a ydych chi eisiau codi pryder, gallwch ein ffonio i siarad â rhywun ar **020 3307 6802**. Byddwn yn gwrando ar eich pryderon ac yn rhoi amser i chi siarad am yr hyn sy'n digwydd. Byddwn yn cymryd eich pryderon o ddifrif.

Os ydych chi'n barod i godi pryder, gallwch wneud hyn drwy lenwi ffurflen ar ein gwefan: **https://www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/raise-a-concern/**

Mae'n ddefnyddiol os ydych chi'n gwybod enw'r fydwraig, y nyrs neu'r cydymaith nyrsio pan fyddwch chi'n cysylltu â ni – ond peidiwch â phoeni os nad oes gennych chi e, byddwn ni'n gwneud ein gorau i ddarganfod.

Os ydych chi'n cael trafferth defnyddio'r ffurflen hon ac mae'n well gennych chi siarad â ni am gyngor, cysylltwch â'n llinell gymorth atgyfeiriadau ar **020 3307 6802**.

# Pwy arall a allai helpu

Os na allwn ni helpu neu os nad ni yw'r bobl gywir, byddwn ni'n eich helpu i ddod o hyd i'r bobl gywir i siarad â nhw.

Gallai hyn fod:

- **Ysbytai.** Maent yn cyflogi bydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio, ac yn goruchwylio eu gwaith o ddydd i ddydd. Dylent ymchwilio pryd bynnag y bydd pethau'n mynd o chwith.
- **Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC).** They help if you think a doctor isn't fit to practise.
- **Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).** Maent yn helpu os oes gennych bryderon am weithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys ymarferwyr adran lawdriniaeth a pharafeddygon.
- Rheoleiddwyr sy'n cymryd camau pan allai gwasanaethau iechyd, fel ysbytai, fod yn anniogel:
    - **Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)** yn Lloegr.
    - **Yr Arolygiaeth Gofal** yn yr Alban.
    - **Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)** yng Ngogledd Iwerddon.
    - **Gwella Iechyd Cymru (AGIC)** yng Nghymru.
- **Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO).** Os ydych chi eisoes wedi codi pryder gydag ysbyty GIG ac yn teimlo nad ydyn nhw wedi cymryd y camau cywir, gallwch chi wneud cwyn i'r PHSO am y GIG.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut rydym yn edrych ar bryderon, gweler ein gwefan yn **www.nmc.org.uk**.

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).